



Capel y Traeth ar Waith

www.capelytraeth.com

Rhif 93

Tachwedd 2018

04	Parch R.E. Hughes	Mrs Eirwen Ll. Jones
11	Parch Iwan Ll. Jones (J)	Mrs Rhydwen Jones
18	Parch Iwan Ll. Jones (J)	Mrs Buddug Lloyd Roberts
25	Dewi Jones	Mrs Jean Richards

- 06 Brecwast yn y Festri 9.15 – 10.45
11 Sul y Cofio – gweithgareddau yn y Neuadd Goffa.
13 Cylch Trafod yn y Festri am 10.30. *'Maddeuant'* dan arweiniad John Bryn Williams
13 Cyfarfod y Chwirydd am 1.00 y.p.
20 Y Gymdeithas Ddiwylliadol yn y Festri am 7.15
Marcus Robinson – *'Caplaniaeth yn ei holl amrywiaeth.'*

Llywydd y mis: Aled Rees
Ymweld: Buddug ac Ariel
Glanhau: Elsbeth a Hugh
Glanhau Festri Jerusalem: Eira Eastwood
Croesawu: Capel y Traeth

Trasiedi rhyfel yw ei fod yn defnyddio gorau dyn i gyflawni gwaethaf dyn.

H.E. Fosdick

*Allan o 'Un Dydd ar y Tro'. M.S. Fontaine
Casgliad Cymraeg gan Huw John Hughes*

Cofion Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch fel arfer. Roedd yn ddrwg gennym ddeall fod Mr Robin Hughes yn Ysbyty Bryn Beryl. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn cofio atoch yn gynnes iawn Robin. Ym Mryn Beryl hefyd mae Mrs Mair Williams a da yw deall ei bod yn gwella'n raddol. Anfonwn ein cofion atoch chwithau Mair. Cofiwn hefyd at y Parch Arthur Williams sydd yng nghartref y Pines ar hyn o bryd.

Mae Mrs Buddug Lloyd Roberts yng nghartref Plas Gwyn a deallwn eich bod wedi setlo'n dda Buddug. Cofion cynnes atoch. Roedd Mrs Eirlys Jones, Pentrefelin, yn dathlu penblwydd go arbennig yn ddiweddar ac roedd gwahoddiad i unrhyw un alw i'w gweld ar y diwrnod mawr. Roedd Eirlys wedi rhybuddio nad oedd am dderbyn unrhyw anrhegion ond i bobl roi cyfraniad, pe dymument, at unrhyw elusen o ddewis y Clwb Sul. Fe fydd yr arian yn cael ei anfon i gynnal ystafell Ronald MacDonald yn ysbyty Alder Hey ac at waith Cymorth Cristnogol. Diolch yn fawr iawn i Eirlys ac i bawb a gyfrannodd.

Banc Bwyd Diolch o galon am eich cyfraniadau hael i'r banc bwyd. Mae'r rhai sy'n gofalu am y banc ym Mhwlheli yn hynod ddiolchgar a llythyr yn dod yn fisol i ddatgan hynny. Daeth cais y tro hwn am duniau llyisiau a ffrwythau, grawnfwyd brewcwast a llefrith UHT. Mae'n debyg mai dyma'r pethau maent yn cael y lleiaf ohonynt. Mae'n braf meddwl ein bod yn gallu helpu teuluoedd ac unigolion sydd yn gorfod dibynnu ar y cyfraniadu hyn.

Gwasanaeth Diolchgarwch



Hyfryd oedd cael bod yn bresennol yn y gwasanaeth Diolchgarwch a chael y fraint o fwynhau cyfraniadau graenus rhieni a phlant y Clwb Sul. Cawsom anrheg bach o waith y plant ar y ffordd allan o'r gwasanaeth. Diolch iddynt am y rhain. Gwnaed casgliad o £140 yn ystod y gwasanaeth ar gyfer Apêl Diolchgarwch Cymorth Cristnogol. Gan fod yr Undeb Ewropeaidd yn cyfrannu £4 at bob £1 a gasglwyd dros gyfnod diolchgarwch roedd y £140 yn gyfwerth â £700. Ardderchog wir, diolch o galon i chi gyd.

Swper Diolchgarwch

Yn dilyn y gwasanaeth yn y bore cafwyd swper yn y festri am 5 o'r gloch. Daeth llond y festri i fwynhau cawl blasus a phwdinau ardderchog i ddilyn. Diolch i'r chwiorydd am baratoi y wledd. Roedd yr awyrgylch yn gartrefol braf a sgwrsio mawr o gwmpas y byrddau. Braf oedd cael cwmni ein ffrindiau o Lanystumdwy a rhai o blant a rhieni y Clwb Sul. Gwnaed casgliad at Apêl Madagascar ac rydym yn hynod ddiolchgar am eich haelioni. Llwyddwyd i godi £285.

Bore Coffi MacMillan a Hosbis yn y Cartref

Diolch o galon i bawb a gefnogodd y ddwy elusen haeddiannol yma. Llwyddwyd i godi £763. Diolch i'r Chwiorydd am drefnu eto eleni.

Drws Agored Y brodyr ffyddlon oedd yn gofalu am y baned a'r tŏst ar y bore olaf ar 9 Hydref. Maent yn dipyn o giamstars ar y gwaith erbyn hyn ac yn cael llawer iawn o hwyl yn y gegin. Yn ystod y tymor rhwng y Pasg a'r Diolchgarwch rydym wedi llwyddo i godi £575. Fel y gwyddoch mae'r arian yn mynd tuag at gynnal Eisteddfod y Plant yn y Gwanwyn ac i dalu am y llinell ffôn ar gyfer cael mynediad i'r wê yn y festri. Diolch o galon i'r ffyddloniaid sydd yn dod i fwynhau paned ac yn arbennig y sgwrs felys bob bore Mawrth.

Brecwast Fel y soniwyd yn y cylchlythyr diwethaf, bwriadwn ddarparu brecwast ar y bore Mawrth cyntaf bob mis rhwng 9.15 a 10.45. Bydd y cyntaf o'r rhain **fore Mawrth, Tachwedd 6ed**. Y gŏst fydd £3.50 Cewch rawnfwyd brecwast, sudd oren, bab bacwn ac wÿ a phaned o de. Ydych chi am ddod? Edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

Cylch Trafod Bydd y cyntaf o'r cyfarfodydd yma **fore Mawrth 13 Tachwedd am 10.30 yn y festri**. John Bryn Williams fydd yn arwain y cyfarfod a'r testun trafod fydd **Maddeuant**. Edrychwn ymlaen i gael eich cwmni.

Y Gymdeithas Ddiwylliadol Cawsom noson hwyliog yng nghwmni parti PWY 'SA'N MEDDWL o ben Llÿn dan ofal Gwenda Williams. Roedd pawb yn gwirioni gwrando ar y lleisiau swynol yn canu rhai o'r hen ffefrynnau a nifer dda o ganeuon poblogaidd oedd yn gyfarwydd i ni i gyd. Bydd y cyfarfod nesaf ar 20 Tachwedd pryd y cawn gwmni Marcus Robinson yn sôn am ei waith fel Caplan.

A ninnau'n nesau at Wythnos y Cofio 1918 – 2018 Dyma'r gerdd Rhyfel gan Hedd Wyn

Rhyfel

Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng,

A Duw ar drai ar orwel pell;

O'i ôl mae dyn, yn deyrn a gwreng,

Yn codi ei awrdudod hell.

Pan deimlodd fyned ymaith Dduw

Cyfododd gledd i ladd ei frawd;

Mae sŵn yr ymladd ar ein clyw,

A'i gysgod ar fythynnod tlawd

Mae'r hen debynau genid gynt

Yng nghrog ar gangau'r helyg draw,

A gwaedd y bechgyn lond y gwynt,

A'u gwaed yn gymysg efo'r glaw.





Clwb Sul Rydym wedi mwynhau ein hanner tymor cyntaf yn y Clwb Sul ac wedi bod yn eitha prysur. Braf oedd cael bod yn rhan o'r Gwasanaeth Dioichgarwch a gobeithio i chwi fwynhau cael yr anrhegion a wnaethom ar eich cyfer. Buom yn rhan o'r Gwasanaeth fore Sul diwethaf hefyd a chawsom sgwrs am Halen gan Mr Llewelyn. Y neges oedd, fel mae halen yn rhoi blas ar fwyd felly hefyd mae dysgu am Iesu Grist a dod i'w adnabod yn rhoi blas ar ein bywydau ni. Mae halen yn cael ei ddefnyddio hefyd i gadw bwyd rhag mynd yn ddrwg ac felly mae Iesu Grist gyda ni bob amser ac yn gofalu amdanom.



Byddwn yn rhan o'r gweithgaredd yn y Neuadd Goffa brynhawn Sul y Cofio ac rydym wedi bod yn ymarfer efo Anti Gwyneth Glyn.



Clwb Ieuentid Mae dau gyfarfod o'r clwb wedi bod ers dechrau mis Hydref. Yn y cyfarfod cyntaf buom yn sgwrsio am yr hyn yr hoffem ei wneud yn y cyfarfodydd a hefyd yn llunio rheolau i'w cofio wrth fod yn aelod o'r clwb. Erbyn yr ail gyfarfod roedd byrddau snwcer a tennis bwrdd wedi cyrraedd y festri! Rydym yn lwcus iawn ac yn edrych ymlaen at y cyfarfod nesaf ar **8 Tachwedd am 7 o'r gloch yn y festri.**



Cardiau Nadolig Mae Ffion Gwyn eisoes wedi dylunio'r cerdyn gyda chydig o help gan aelodau'r Clwb Sul a'r Clwb Ieuentid ac mae'n gerdyn tlws iawn eto eleni. Cofiwch y bydd y rhain ar werth cyn diwedd mis Tachwedd.